



**Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales**

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu Cyfarfod Bwrdd 30 Medi 2022

Yn bresennol:

Dr Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Kirsty Payne (KP) (Pennaeth Gweithrediadau)
Mike James (MJ)
Martin Price (MP)
Dr Debbie Nash (DN)
Paul Marshall (PM)
Yusuf Ibrahim (YI)
John Graystone (JG)
Gillian Gillet (GG) (Archwilio Cymru)
Andrea Thomas (AT) (Archwilio Cymru)
Gaynor Ace (GA) (Ysgrifenyddiaeth)

1. Gair o groeso, cadarnhau'r cofnodion a chymau gweithredu'r cyfarfod blaenorol

Agorwyd y sesiwn gan SD a chroesawyd pawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan gynrychiolydd Llywodraeth Cymru.

Roedd un gwrthdaro buddiannau i'w nodi, a amlygwyd gan MP. Roedd hyn yn ymwneud â rhestru MP ar gais am arian arloesi a dderbyniodd yr Academi Arweinyddiaeth. Roedd SD wedi ymchwilio i hyn a chadarnhawyd na fu MP yn rhan o'r broses ymgeisio na'r broses ariannu o gwbl. Atgoffodd MJ y Bwrdd am y broses ddiwygiedig yn ymwneud â gwrthdaro buddiannau a'r angen am ddogfennaeth lawn o achosion fel hyn. Bydd hyn yn cael ei nodi'n briodol o hyn ymlaen.

Llongyfarchodd SD y tîm am eu llwyddiant ar gyrraedd rhestr fer gwobr Buddsoddwyr mewn Llesiant. Ni fyddai'r tîm yn mynychu'r seremoni wobrwyo fodd bynnag gan fod pris tocynnau mor ddrud.

Roedd Gareth Keys wedi cysylltu ag aelodau'r Bwrdd ynglŷn â'u harfarniadau blynyddol gydag SD. Byddai SD yn hapus i'w cynnal mewn sesiwn min nos pe bai hynny'n haws.

Diolchodd SD i MJ am gytuno i weithredu fel Is-gadeirydd y Bwrdd.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir.

Cyfeiriodd SD at y Log Gweithredu o gyfarfod blaenorol y Bwrdd a nododd fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau bellach. Atgoffodd SD y cyfarwyddwyr i wirfoddoli i arwain ar feysydd llif gwaith o ddiddordeb. O ran monitro gwleidyddol, tynnodd MP sylw at broblem ddiweddar gyda chamwybodaeth ar y Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion. Mae hyn wedi achosi rhai problemau y mae arweinwyr ysgolion wedi gorfod ymdrin â nhw.

2. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol

Rhoddodd AS adroddiad cryno ar gyfarfod olaf y pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis.

Mae lefelau absenoldeb staff wedi bod yn isel. Mae'n ymddangos bod y dull hybrid yn gweithio'n dda i'r sefydliad.

Mae JG wedi bod yn cyfarfod â staff fel prif gyfarwyddwr llesiant. Doedd dim problemau wedi'u hadrodd hyd yma. Roedd polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu ac amlygwyd rhai newidiadau'n ymwneud â'r broses Perfformiad a Datblygu.

Doedd dim byd mawr i'w adrodd ar y gyllideb sydd ar y trywydd iawn.

Cynhaliwyd trafodaeth ar lwfans gweithio gartref posib i staff gan nad oes swyddfa benodol ar gael mwyach. Cytunwyd i ehangu'r drafodaeth hon i'r Bwrdd cyfan gydag awgrym o sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried hyn ymhellach. Awgrymodd MJ fod y grŵp hwn yn ailystyried hefyd a yw'r Academi Arweinyddiaeth yn bwriadu parhau fel sefydliad rhithwir.

Cytunodd JG ac MJ y byddai'n gyson darparu rhyw fath o gyfraniad ariannol ar gyfer gweithio gartref, ac roedden nhw'n cefnogi'r syniad o sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen. Tynnodd YI sylw at y ffaith bod llawer o waith wedi'i wneud ar hyn gan sefydliadau eraill felly gallai'r cymariaethau hyn fod yn ddefnyddiol. Roedd PM wedi ymchwilio i hyn yn y brifysgol hefyd gan dynnu sylw at oblygiadau treth/budd-daliadau ac effeithiau cytundebol. Hefyd, cyfeiriodd PM at y ffyrdd gwahanol o fynd i'r afael â hyn megis taliadau untro i staff.

Holodd JG a oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch codiad cyflog y flwyddyn nesaf i staff, ond doedd dim byd wedi'i gadarnhau gan Lywodraeth Cymru hyd yma.

Cytunodd y Bwrdd i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen tymor byr. Gwirfoddolodd JG i fod yn aelod o'r grŵp hwn a gofynnwyd i eraill wirfoddoli drwy e-bost.

Diolchodd SD i MP am ei ddiweddariad ac am ddod â'r drafodaeth ar lwfans gweithio gartref i sylw'r Bwrdd.

3. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Cyflwynodd MJ yr adroddiad o gyfarfod y pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis.

Cafodd risgiau eu hadolygu ar y Gofrestr Risg bresennol a phenderfynwyd pa risgiau fyddai'n cael eu cario drosodd i'r gofrestr ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Roedd DN wedi cynnig gweithio gyda TE ar ymarfer traws-gyfateb o risgiau yn ymwneud â'r llythyr cylch gwaith. Gofynnwyd i ystyriaeth gael ei rhoi i arwyddocâd risgiau'n ymwneud â'r cwricwlwm newydd ac ADY.

Roedd yr adroddiad Archwilio Mewnol diweddaraf ar Reolaethau Ariannol Allweddol wedi'i gwblhau, a'r sefydliad wedi cael 'sicrwydd rhesymol'. Gwnaed rhai pwyntiau am wirio dwbl taliadau er y cydnabuwyd yma y byddai angen rhywfaint o bragmatiaeth oherwydd maint y sefydliad. Cytunwyd y byddai gorgyffwrdd rhwng archwiliad mewnol ac allanol yn fuddiol.

Roedd Charlotte Thomas wedi rhoi cyflwyniad defnyddiol iawn ar gyfathrebu a marchnata ar gyfer yr Archwiliad Dwfn. Roedd y pwyllgor yn dawlach eu meddwl bod symud o godi ymwybyddiaeth i feithrin dealltwriaeth drwy'r gwahanol sianeli cyfathrebu'n cael ei wneud yn effeithiol. Anogwyd y defnydd o segmentu fel ffordd dda o gefnogi arweinwyr ar wahanol adegau yn eu gyrfaedd.

Diolchodd SD i MJ am adroddiad defnyddiol ac roedd yn falch o glywed am y cynnydd sy'n cael ei wneud.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol

Rhoddodd TE drosolwg byr ar benodiadau newydd a chroesawodd y cynnydd o ran capasiti'r sefydliad. Mae Nia Miles wedi dechrau ar ei swydd fel Pennaeth Mewnwelediad a Gareth Key wedi'i benodi'n Swyddog Cymorth Busnes. Bydd Richard Edwards yn dechrau fel Pennaeth Datblygu Arweinyddiaeth ym mis Tachwedd. Fe wnaeth TE gydnabod nad yw Mark Isherwood wedi cael unrhyw gymorth yn ei faes am gyfnod byr, sydd wedi arwain at fwy o lwyth gwaith.

Bydd Emma Chivers yn dechrau'n fuan hefyd fel cynghorydd gwaith ieuencid ddau ddiwrnod yr wythnos. Bydd Ceri Richmond yn parhau i arwain ar y Prosiect Addysgeg un diwrnod yr wythnos.

Rhoddodd TE drosolwg o gynnydd yn y ffrydiau gwaith gwahanol:

Paragraff 1.1 Sicrhau Ansawdd – mae'r ffrwd waith hon wedi bod yn weddol dawl dros yr haf er bod galwad am gymeradwyaeth wedi'i gwneud ddiwedd tymor yr haf. Y nod yw cwmpasu pob maes yn y cylch gwaith a dylai helpu i adnabod bylchau yn y

ddarpariaeth. Y bwriad yw defnyddio dull llwybr carlam gyda darparwyr sydd wedi'u cymeradwyo a'u hachredu'n flaenorol er mwyn cyflymu'r broses.

Paragraff 1.2 Arloesi - yn dilyn y gyfres ddiwethaf o weithdai Arloesi Digidol, mae'r sefydliad yn ariannu astudiaethau achos erbyn hyn i nodi arferion da a rhoi gwell dealltwriaeth o sut i symud hyn ymlaen. Holodd YI a fydd safonau digidol 2030 yn cael eu defnyddio, a darparodd ddolen i TE edrych i mewn i hyn. Y bwriad yw cynnal y gyfres Arloesi nesaf ar entrepreneuriaeth yn nhymor y gwanwyn gyda'r Athro Andy Penaluna.

Paragraff 1.3 Arweinyddiaeth System - mae recriwtio ar gyfer Carfan 5 wedi'i gwblhau, ac fe wnaeth yr ymgeiswyr llwyddiannus fynychu sesiwn ymsefydlu ddeuddydd yr wythnos diwethaf. Llwyddodd y Gweinidog i ymuno â nhw am swper a gwnaeth sylwadau ffafriol ar y gynrychiolaeth traws-sector a'r egni yn yr ystafell. Adroddodd TE ar ddau brosiect y gofynnwyd amdanynt gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd yr un cyntaf ar ADY yn cyd-fynd yn gyfforddus â'r cylch gwaith, ond gellir ei addasu i ganolbwyntio mwy ar arweinyddiaeth.

Bydd yr Academi Arweinyddiaeth yn arwain yr ail brosiect i Lywodraeth Cymru o'r enw Hyrwyddwyr Cyrhaeddiad. Daw hyn o ffocws y Gweinidog ar degwch mewn addysg. Bydd y prosiect yn para am gyfnod peilot o chwe mis gyda'r nod o gefnogi ysgolion sy'n gweithredu mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol uchel. Mae penaethiaid wedi'u gwahodd i anfon datganiadau o ddiddordeb i weithio ar y prosiect a gaiff ei redeg ar fodel Cydymaith o fentora cymar wrth gymar. Mae Ian Gerard, Cydymaith o Garfan 2, wedi'i nodi i arwain y prosiect hwn. Bydd Ian yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru a chwmni allanol Elevate, ac yn adrodd yn ôl i TE.

Holodd YI a allai staff eraill gyflwyno eu hunain fel Hyrwyddwyr, fel Dirprwy neu Benaethiaid Cynorthwyol. Fodd bynnag, penderfyniad y Gweinidog oedd targedu Penaethiaid yn unig ar gyfer y rolau hyn. Dywedodd TE wrth y Bwrdd y bydd trafodaethau bwrdd crwn gydag arweinwyr o'r maes Ôl-16, y Blynyddoedd cynnar ac ati.

Holodd DN beth fyddai mesur llwyddiant yma ar ôl y cyfnod cymharol fyr o chwe mis. Roedd TE yn credu y bydd mesurau ansoddol fel arolygon a chyfweliadau'n bwysig er y bydd rhai metrigau meintiol i gymharu megis lefelau presenoldeb yn yr ysgol.

Er yn cytuno bod hon yn fenter dda a phroffil uchel i'r Academi Arweinyddiaeth, roedd MJ am wybod a oedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn mai problem economaidd oedd hon mewn gwirionedd, nid un addysgol. Esboniodd TE fod y Gweinidog am ganolbwyntio ar roi'r cyfle gorau posib i blant mewn amgylchedd dysgu waeth beth fo'u cefndir. Roedd MJ yn derbyn hyn ond yn ansicr sut allai'r system addysgol wneud iawn am y problemau ariannol presennol yn llawn. Byddai gan SD ddiddordeb mawr yng nghanfyddiadau'r astudiaeth gan fod y mater wedi bod yn sail i waith cynharach iddi.

Mewn ymateb i ymholiad gan DN, cadarnhaodd TE nad oedd cynlluniau ar hyn o bryd i ymestyn y prosiect y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o chwe mis. Roedd DN yn cytuno â phwrpas cynhenid y fenter hefyd ond roedd ychydig yn betrusgar o ran rhuthro pethau mewn amserlen mor dynn.

Paragraff 1.4 Datblygu Arweinyddiaeth – cynhaliwyd sesiwn Blether ryngwladol lwyddiannus iawn gyda phartneriaid yn Iwerddon a'r Alban. Bydd TE yn trefnu cyfarfodydd gyda chyfarwyddwyr yn y gwledydd hyn ac yn cynllunio model adolygu cyfoedion i graffu ar waith. Roedd y gofod llesiant ar gyfer penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro yn profi'n boblogaidd.

Paragraff 2.1 Adnoddau – roedd yr adnodd Arwain Dysgu Proffesiynol yn rhan o bolisi cenedlaethol bellach. Mae Nia Miles wedi bod yn siarad gyda grwpiau o Benaethiaid am sut i ddefnyddio'r adnodd yn ymarferol.

Paragraff 2.2 Cyfres Mewnwelediad – bydd yr Athro Carol Campbell yn gwneud darn o waith ar ymarfer myfyriol cyn bo hir. Pwysleisiodd TE bwysigrwydd gweithredu ar negeseuon allweddol mewn papurau ymchwil yn hytrach na dim ond eu comisiynu.

2.3 Llesiant – mae'r sefydliad wedi'i enwebu ar gyfer gwobr Buddsoddwyr mewn Llesiant fel y nodir ym Mharagraff 1. Mae Charlotte Thomas yn gweithio ar ymgyrch yn y cyfryngau erbyn hyn i dynnu sylw at y gwaith sydd wedi digwydd. Ystyriodd TE sut mae'r agwedd llesiant yn cwmpasu pawb ac roedd yn falch iawn o nodi sut mae'r gwaith a wnaed yn y maes hwn yn cael effaith mor gadarnhaol ar bolisi.

2.4 Cynllunio'r Gweithlu Strategol – mae'r ymarfer caffael wedi cau bellach ar gyfer y prosiect recriwtio a chadw a'r prosiect penaethiaid gweithredol. Ni ellir dyfarnu'r contract ar gyfer recriwtio a chadw staff yn y sector ysgolion hyd nes y cadarnheir bod y cwmni'n profi ei ddealltwriaeth o gyd-destun polisi Cymru. Bydd Prifysgol Bangor yn cynnal y prosiect i benaethiaid gweithredol er bydd angen newid y dyddiad cau ar gyfer y gwaith hwn i gyd-fynd â'r amserlenni IWPRB. Bydd yr adolygiad o'r ddarpariaeth Datblygu Arweinyddiaeth Ôl-16 yn cael ei rannu gyda phenaethiaid ym mis Tachwedd cyn cael ei gyhoeddi. Holodd JG a yw hyn yn cynnwys dysgu yn y gwaith. Bydd TE yn gwirio hyn, ond nid yw'n credu ei fod. Roedd TE yn gobeithio y byddai penodi Emma Chivers yn ddiweddar yn cryfhau a chydlynu gwaith yn y sector ieuencid ac yn sicrhau mwy o gydlynu.

3.1 Corfforaethol – cyfeiriwyd at y Gofrestr Risg ym Mharagraff 3 uchod.

3.2 Swyddogaeth Weithredol – roedd diweddariad am aelodau staff newydd wedi'i ddarparu yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

3.3 Cyfathrebu a Marchnata – ym mis Awst gwelwyd y gostyngiad arferol mewn ymweliadau â'r wefan, y gellir ei briodoli i'r gwyliau ysgol. Roedd y gyfradd fownsio wedi cynyddu i 16% ond mae'n dal i fod yn dda gweld bod y rhan fwyaf yn ymweld â sawl tudalen. Y cyhoeddiadau a lawrlwythwyd fwyaf oedd: y canllaw ar gymeradwyo; y cynllun corfforaethol; a'r llythyr cylch gwaith. Y fideo a wylwyd fwyaf oedd gweminar Datgloi Arweinyddiaeth gyda Hamish Brewer. Roedd TE yn falch o nodi'r nifer cynyddol o ddilynwyr Twitter a Facebook drwy'r haf. Roedd niferoedd defnyddwyr Linked In ac Instagram wedi cynyddu hefyd, fel yr oedd tanysgrifwyr Mail Chimp i'r cylchlythyr.

3.4 Rhanddeiliaid a Gwaith Partneriaeth – erbyn hyn mae grŵp cyfeirio rhanddeiliaid cryf iawn ar waith, a chafwyd cyfarfod wyneb yn wyneb yr wythnos hon. Cynhaliwyd gwaith mapio rhanddeiliaid yn gynharach gyda'r tîm, a chafodd hyn ei adolygu yn y

cyfarfod hwn. Ar hyn o bryd mae'r grŵp cyfeirio'n cyd-drefnu cyfarfod llawer mwy gyda rhanddeiliaid ym mis Tachwedd.

Roedd PM yn falch iawn o glywed am y cynnydd gyda rhanddeiliaid. Yn ddiweddar, cafodd gyfle i drafod gwaith yr Academi Arweinyddiaeth gyda Gweinidog Addysg cysgodol y DU.

Diolchodd SD i TE am adroddiad hynod addysgiadol sy'n tynnu sylw at yr holl faterion allweddol ac yn ysbrydoli sgyrsiau defnyddiol iawn.

5. Adroddiad Archwilio Allanol

Croesawyd Andrea Thomas (AT) a Gillian Gillet (GG) o Archwilio Cymru i'r cyfarfod gan SD.

Cadarnhaodd GG fod y gwaith archwilio wedi'i gwblhau bellach gyda dim ond rhai mân faterion i'w hadrodd, a oedd wedi'u cywiro. Cynhaliwyd gwiriadau ychwanegol ar ragdaliadau eleni oherwydd problemau'r flwyddyn flaenorol ond dim ond 1 camgymeriad bach iawn oedd wedi'i ganfod ac nid oes angen cywiro.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi barn ddiamod ar y cyfrifon yn awr. Mewn ymateb i ymholiad gan KP, cadarnhaodd GG y byddai llofnodion digidol yn cael eu derbyn ar y gwaith papur.

Diolchodd GG i'r tîm am eu holl waith a chydweithrediad gydol yr archwiliad. Diolchodd KP yn ei dro i'r tîm Archwilio am eu cefnogaeth ac roedd yn falch bod y newidiadau i'r broses eleni wedi lleihau'r llwyth gweinyddol i bawb oedd yn rhan o'r broses.

Hefyd, diolchodd SD i'r tîm Archwilio a KP am eu holl waith caled ar yr archwiliad.

6. Cyfrifon Blynyddol 2021/2022

Roedd KP wedi dod â'r cyfrifon i'r Bwrdd i'w llofnodi'n ffurfiol ac wedi cadarnhau y byddai llofnodion electronig yn cael eu derbyn ar y gwaith papur

Roedd JG yn falch o weld yr esboniad mewn nodiadau ynglŷn â swm y diffyg, gan longyfarch yr uwch dîm rheoli am ganlyniad da.

Roedd y Bwrdd yn hapus i lofnodi'r cyfrifon blynyddol am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

7. Dyddiad y cyfarfod nesaf, eitemau agenda yn y dyfodol a chau'r cyfarfod

Diolchodd SD i bawb am gymryd rhan yn y cyfarfod heddiw gan atgoffa pawb i gysylltu ynghylch eu harfarniadau. Diolchodd Sue i'r 2 bwyllgor am eu holl waith

hefyd. Soniodd SD am ba mor ddefnyddiol oedd yr archwiliadau dwfn a gynhaliwyd yn y pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a wnaeth roi darlun da iawn o'r meysydd gweithgaredd unigol.

Wrth ateb i ymholiad gan JG, cadarnhaodd TE fod disgwyl i gyfarfod nesaf y Bwrdd gael ei gynnal wyneb yn wyneb yn nhyr y Gwanwyn. Bydd y ffordd hybrid o weithio'n cael ei hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i weithio'n dda.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 22 Tachwedd - bydd hwn yn gyfarfod ar-lein hefyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45am

Cofnod Gweithredu

Rhif		Perchennog	Terfyn amser	Statws
205	Gwirfoddolwr i fod yn gyfarwyddwr arweiniol ar ffrydiau gwaith	Pob cyfarwyddwr	Hydref 2022	Cwblhawyd
208	Trefnu arfarniadau gyda SD	Pawb	Hydref 2022	
209	Amlygu unrhyw beth sy'n berthnasol o'r adroddiad monitro gwleidyddol	MP	Parhaus	
210	Gwahodd CL i gyfarfod Bwrdd y dyfodol	KP	Tachwedd 2022	Cwblhawyd
212	Gwirfoddolwr i ymuno â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen	Pawb	Hydref 2022	Cwblhawyd